# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 09.05.01

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**

**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhifau gwreiddiol y cwestiynau mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd

**Christine Chapman (Cwm Cynon);** Faint yw cyfanswm yr arian sydd wedi cael ei wario, gan, ar ran, ac ar gyfer y WDA mewn perthynas â'r Gwaith Ffyrnasait yn Abercwmboi yng Nghwm Cynon. (WAQ11375)

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint fu'r cynnydd yn nifer yr heddlu yng Nghymru rhwng 1 Mai 97 a 1 Mai 2001. (WAQ11376)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint fu'r cynnydd yn nifer yr heddlu yng Nghymru rhwng 6 Mai 97 a 1 Mai 2001. (WAQ11377)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru**); A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion y cysylltu personol fu rhyngddo ef â CBAC dros y 6 mis diwethaf. (WAQ11378)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog roi manylion y cysylltu personol fu rhwng ei swyddogion ef â CBAC dros y 6 mis diwethaf. (WAQ11379)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid a Chymunedau Lleol

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynrychioliadau penodol y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn gan awdurdodau lleol yn mynegi pryder am y dull o weinyddu a gweithredu Amcan 1. (WAQ11380)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**David Davies (Mynwy);** Beth mae hi yn ei wneud i sicrhau diogelwch bwydydd sy'n cael eu mewnforio i Gymru o dramor. (WAQ11381)

**David Davies (Mynwy);** A gaiff trigolion sy'n byw gerllaw safleoedd sy'n cael eu defnyddio i

losgi cyrff anifeiliaid ar raddfa eang eu sgrinio i weld a ydynt wedi cael eu hamlygu i ddeuocsinau. (WAQ11382)

**David Davies (Mynwy);** A wnaiff ddatganiad ar argaeledd y brechlyn TB yng Nghymru a'r defnydd ohono. (WAQ11383)

Gofyn i'r Trefnydd

**David Davies (Mynwy);** A oes yna unrhyw gynlluniau i gynnig gwybodaeth ar wefan y Cynulliad mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac os oes a wnaiff restru'r ieithoedd sy'n cael eu hystyried. (WAQ11384)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**David Davies (Mynwy);** Faint o ddynion ifanc 16 oed, yng Nghymru, adawodd yr ysgol yn ystod y chwe blynedd diwethaf heb gymwysterau cydnabyddedig. (WAQ11385)

**David Davies (Mynwy);** Faint o fenywod ifanc 16-oed, yng Nghymru, adawodd yr ysgol yn ystod y chwe blynedd diwethaf heb gymwysterau cydnabyddedig. (WAQ11386)

**David Davies (Mynwy**); A fydd yn gorchymyn ymchwiliad i effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar economi Cymru pan fydd y clwyf wedi cael ei waredu yn llwyr o Gymru. (WAQ11387)

**David Davies (Mynwy);** A yw adran amaethyddiaeth y Cynulliad yn cynnal ymarferion cynllunio brys mewn perthynas ag achosion posibl o afiechydon heintus ymhlith anifeiliaid a pha adrannau, asiantaethau a chyrff eraill sy'n cymryd rhan. (WAQ11388)

**David Davies (Mynwy);** Pa fathau o ddeunydd GM gaiff eu defnyddio yn y treialon cnydau GM yng Nghymru ac a gaiff y genyn a elwir 'terminator' ei ddefnyddio, ac ym mha safleoedd. (WAQ11389)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**David Davies (Mynwy**); Pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda chyfeillion yn y DTI ynghylch cynnydd projectau ymchwil sy'n monitro'r cyfarpar nwy gwastraff yng ngwaith trin carthion Nash ger Casnewydd. (WAQ11398)

**David Davies (Mynwy);** A gyflwynwyd unrhyw brojectau Cymreig i ddatrys problemau carthion o dan raglen LIFE yr UE. (WAQ11399)

**David Davies (Mynwy);** A fydd hi'n gorchymyn cynnal ymchwiliad i effeithiau Clwy'r Traed a'r

Genau ar yr amgylchedd unwaith y bydd y clwy wedi cael ei waredu o Gymru. (WAQ11390)

**David Davies (Mynwy**); A ydyw wedi trafod gyda'i chydweithwyr yn San Steffan, oblygiadau defnyddio napalm i waredu cyrff anifeiliaid. (WAQ11391)

**David Davies (Mynwy);** Pa gamau y mae'n bwriadu eu cymeryd yn dilyn yr achosion o lygredd yn safle claddu yr Epynt. (WAQ11392)

**David Davies (Mynwy);** Am ba mor hir wedi claddu'r cyrff anifeiliaid olaf y bydd safleoedd a adeiladwyd ar gyfer, neu a ddefnyddiwyd ar gyfer, claddu cyrff anifeiliaid mewn perthynas â chlwy'r traed a'r genau, yn cael eu monitro am lygredd. (WAQ11393)

**David Davies (Mynwy);** Sawl achos o dorri'r Rheoliadau Dwr Daear a fu o ganlyniad i'r rhaglen ar gyfer gwaredu Clwy'r Traed a'r Genau. (WAQ11394)

**David Davies (Mynwy**); Beth yw effeithiau amgylcheddol defnyddio napalm i ddinistrio cyrff anifeiliaid. (WAQ11395)

**David Davies (Mynwy);** A yw llosgi cyrff anifeiliaid yng Nghymru yn torri unrhyw un o reoliadau'r UE ar wastraff a/neu losgi. (WAQ11396)

**David Davies (Mynwy);** A oes yna unrhyw gynlluniau i ganiatau i awdurdodau cynllunio lleol osod amodau ar ganiatâd cynllunio er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol bod adeiladau yn arbed cymaint o ynni ag sy'n ymarferol bosibl. (WAQ11397)